



Astudiaeth Achos 4 Cymunedau am Waith – Mr M

Pan wnes i gwrdd â M gyntaf, nid oedd unrhyw hyder ganddo, roedd yn teimlo'n ddiwerth ac yn dda i ddim i neb, ac nid oedd yn credu chwaith fod ganddo unrhyw gyfle o gael swydd gyflogedig. Bu M yn ddi-waith ers dros ddeng mlynedd o ganlyniad i ddamwain car a achosodd problemau symudedd iddo, a chyflwr dirywiol ar ei asgwrn cefn a fyddai yn y pen draw yn golygu y byddai'n rhaid iddo ddefnyddio cadair olwyn yn barhaol. Roedd M wedi bod yn ceisio ailadeiladu ei fywyd ac yn mynychu cyrsiau Cymunedau yn Gyntaf yn aml i geisio meithrin ei hyder. Ar ôl cael cymorth gan Cymunedau am Waith, mae M wedi cael cynnig gwaith cyflogedig, ar ôl cael cymorth i wirfoddoli gyda'r un sefydliad am y tri mis diwethaf.

Roedd M yn dod o gefndir peirianeg ac roedd yn anodd iddo dderbyn nad oedd yn gallu dychwelyd i'r yrfa yr oedd yn ei charu. Rhan o'r cymorth a gynigwyd iddo oedd ei ddarbwyllio bod ganddo lawer i'w gynnig o ran cyflogaeth ac y byddem ni, gyda'n gilydd, yn cynllunio llwybr gyrfa wahanol. Ar ôl trafod yr hyn y gallai ei wneud yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allai ei wneud, penderfynwyd y byddai swydd mewn swyddfa yn alwedigaeth y gallai ei dilyn. Roedd M eisoes wedi cwblhau lleoliad gwaith gweinyddol a chafodd dystysgrif lefel un mewn gweinyddu, felly roedd gennym rywbeth i'w ddatblygu.

Roedd yn rhaid imi ddod o hyd i swydd weinyddol iddo a oedd yn rhoi rhywfaint o brofiad iddo adeiladu arno ac roeddwn i'n ffodus i ddod o hyd i'r cyflogwr perffaith ar ei gyfer. Yn flaenorol, yr oedd ef wedi anfon ceisiadau dirifedi, yn bennaf i gyflogwyr sy'n hyderus o ran anabledd, a hynny o'r rhestr yr oeddwn i wedi ei llunio, yn y meysydd yr oedd ef eisiau gweithio ynddynt. Ymchwiliais hefyd i'r cyllid Mynediad i Waith fel bod gennym yr holl wybodaeth yn barod i gysylltu â chyflogwr sy'n barod i gyflogi M.

Llwyddais i ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas ar gyfer M yng Nghanolfan Bywyd Bethlehem yng Nghefn Cribwr, elusen sy'n cael ei rhedeg mewn cymuned lle mae pobl yn dod i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Roedd y lleoliad hwn yn ddelfrydol i M ac roeddwn i'n gwybod y byddai hwn yn amgylchedd cefnogol a dyna'r union beth yr oedd ei angen arno i'w helpu i fagu hyder ac i roi'r profiad gweinyddol yr oedd ei angen yn fawr. Ystyriais hefyd gyrsiau gweinyddu a busnes addas i'w cyfuno â'i brofiad, er mwyn ei roi mewn sefyllfa well o lawer i ddod o hyd i gyfleoedd gyda chyflogwr.

Roedd yn amlwg iawn bod M yn mwynhau yno ac roedd yn teimlo'n falch o fod yn gwneud rhywbeth gwerth chweil eto. Yn ystod ei apwyntiadau gyda mi, roedd yn sgwrsio'n hapus am y gwahanol systemau yr oedd yn eu gweithredu wrth weithio ar y dderbynfa. Yn benodol, roedd un system yr oedd ef wedi'i datblygu yn cael ei defnyddio i sicrhau bod yr aelodau sy'n defnyddio'r gampfa yn y ganolfan wedi talu eu ffioedd. Roedd ei hunan-barch a'i hunanwerth yn sicr yn gwella.

Dywed rheolwr y ganolfan fod M wedi dod yn gaffaeliad gwych ac na all y ganolfan lwyddo hebddo. O ganlyniad i hyn, mae wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o gyllid i allu ei dalu fel gweithiwr. Mae M wrth ei fodd gyda hyn ac mae'n hapus y bydd yn gallu aros yn y ganolfan a chael ei dalu am y swydd y mae bellach yn ei charu. Mae wedi cael ei hunan-barch yn ôl ac mae'n falch o ddweud nad yw bellach yn ddi-waith. Nid yn unig y bydd bellach yn cael ei dalu, ond mae rheolwr y ganolfan wedi dweud bod bwriad i gynnig rhagor o hyfforddiant iddo mewn gwasanaeth cwsmeriaid ar gwrs lefel 3.